

Ixekizumab i drin arthritis soriatic gweithredol ar ôl ymateb annigonol i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDs)

8 Awst 2018

Mae Ixekizumab (Taltz) ar gael gan y GIG fel triniaeth ar gyfer arthritis soriatic gweithredol mewn oedolion:

- sydd ag o leiaf 3 chymal poenus a 3 chymal chwyddedig sydd eisoes wedi rhoi cynnig ar o leiaf 2 gyffur gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau a roddwyd ar wahân neu gyda'i gilydd, ond nad ydynt wedi gweithio, neu
- sydd wedi cael atalydd alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) ond nad yw hyn wedi gweithio'n ddigon da o fewn 12 wythnos neu ar ôl 12 wythnos o driniaeth **neu**
- lle y byddai atalyddion TNF yn cael eu defnyddio ond na all y person eu defnyddio.

Dim ond pobl y mae eu harthritis soriatic wedi gwella digon erbyn 16 wythnos all barhau â'r driniaeth. Gellir cymryd Ixekizumab ar ei ben ei hun neu gyda chyffur o'r enw methotrexate.

Wrth asesu sut mae arthritis soriatic yn effeithio ar ansawdd eich bywyd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw anabledau neu anawsterau cyfathrebu a allai fod gennych.

Os nad ydych yn gymwys i gael triniaeth, ond eich bod eisoes yn cymryd Ixekizumab, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Croen Prydain](#), 0207 391 6341
- [Y Gymdeithas Soriasis](#), 01604 251 620
- [Cynghrair Soriaris ac Athritis Soriatic](#), 01923 672837

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3053-1